Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

David Jones
Pennaeth
Coleg Cambria
Ffordd Parc y Llwyni
Wrecsam
LL11 7AA

Awst 2014

Annwyl Mr Jones

**Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Coleg Cambria**

Yn dilyn ymweliad yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad â'ch sefydliad ar 2 i 4 Mehefin 2014, mae'r llythyr hwn yn ffurfio adroddiad blynyddol ar sail canlyniadau'r ymweliad hwnnw. Caiff y llythyr ei gyhoeddi ar wefan Estyn.

Arfarnodd Gill Sims AEM a Liam Kealy AEM berfformiad presennol y sefydliad ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn deillio o arolygiadau blaenorol.

Cynhaliodd yr arolygwyr drafodaethau â'r pennaeth ac uwch reolwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol. Gwnaethant graffu ar ddogfennaeth, gan gynnwys tystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol. Hefyd, gwnaethant ystyried ansawdd addysgu a dysgu drwy deithiau dysgu a chraffu ar broses arsylwi'r darparwr.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd Gill Sims AEM a Liam Kealy AEM ar eu canfyddiadau i bennaeth y sefydliad, cadeirydd y llywodraethwyr ac aelodau eraill yr uwch dîm arweinyddiaeth.

**Canlyniad yr ymweliad gan yr arolygwyr cyswllt**

**1 Deilliannau a safonau**

Ffurfiwyd Coleg Cambria ym mis Awst 2013 o ganlyniad i uno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl. Roedd Coleg Glannau Dyfrdwy wedi uno'n flaenorol â Choleg Garddwriaeth Cymru yn 2009 a Choleg Llysfasi yn 2010. Mae'r arfarniad canlynol o ddeilliannau wedi ei seilio ar y data cyfunol ar gyfer Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl.

Ar draws pob cwrs, Coleg Cambria oedd y coleg a berfformiodd orau yn 2011-2012, â chyfradd llwyddo gyffredinol o 86%.  Roedd hyn bedwar pwynt canran uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol.  Yn 2012-2013, disgynnodd y gyfradd lwyddo un pwynt canran i ddod â'r coleg yn unol â'r cymharydd cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn honno.  Mae'r coleg yn y chwarter uchaf o'r holl golegau yng Nghymru o hyd ar gyfer cyfraddau llwyddo ar bob cwrs.

Roedd 86% o ymrestriadau'r coleg yn 2012-2013 ar gyrsiau hir.  Mae cyfradd llwyddo'r coleg ar gyfer cyrsiau hir wedi aros yn gyson ar 84% dros y ddwy flynedd diwethaf.  Fodd bynnag, mae'r cymharydd cenedlaethol wedi cynyddu ac mae'r coleg wedi symud o dri phwynt canran uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol yn 2011-2012 i fod yn unol â'r cymharydd cenedlaethol yn 2012-2013.  Gwellodd cyfraddau cwblhau llwyddiannus o ran cyrsiau hir mewn tua hanner y meysydd sector pwnc.

At ei gilydd, mae 92% o ymrestriadau ar gyrsiau hir yn arwain at ddysgwyr yn ennill eu cymwysterau.  Mae hyn un pwynt canran yn unig islaw cyfartaledd cenedlaethol Cymru.  Mae lletygarwch ac arlwyo, peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu, a gwyddoniaeth a mathemateg yn feysydd pwnc cryf iawn o hyd, ac mae bron i bob ymrestriad yn arwain at gymhwyster, a bron i bob dysgwr yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus.  Mae cyfraddau cyrhaeddiad ychydig yn is na chyfartaleddau'r sector mewn rhai cyrsiau, yn benodol mewn chwaraeon a'r celfyddydau perfformio.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyrsiau byr yn cwblhau eu dysgu'n llwyddiannus.  Mae'r gyfradd lwyddo gyffredinol wedi aros yn gyson, sef 95% ar gyfer 2011-2012 a 2012-2013, a bu'r coleg yn yr hanner uchaf o'r holl golegau am y ddwy flynedd diwethaf.

## 2 Medrau hanfodol

Mae'r coleg wedi cynnal adolygiad trylwyr o'r prosesau ar gyfer nodi anghenion medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr.  Caiff pob dysgwr asesiad cychwynnol o anghenion ar ddechrau'r cwrs ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae dysgwyr yn cael budd o ystod addas o gymorth medrau, gan gynnwys cymorth y tu allan i'r dosbarth ag athrawon arbenigol, a chymorth yn y dosbarth, yn ôl yr angen, drwy gydol eu cwrs.  Fodd bynnag, ar ôl yr uno, nid yw'r coleg wedi rhoi cynlluniau ar waith hyd yn hyn i alinio patrymau darpariaeth cymorth gwahanol ar draws pob safle nac i rannu arfer orau.

Mae datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn rhan naturiol ac annatod o lawer o'r cyrsiau yn y coleg ac ar draws llawer o feysydd sector pwnc.  Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw rhai cyrsiau a meysydd sector pwnc yn mynd i'r afael ag anghenion medrau dysgwyr yn ddigon da drwy gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol yn eu prif gyrsiau astudio.

## 3 Addysgu ac asesu

Mae gan y coleg drefniadau ar waith i wella addysgu ac asesu.  Mae'r coleg wedi penodi arbenigwyr cwricwlwm i'w swyddi dirprwy gyfarwyddwyr.  Daw'r staff hyn ag arbenigedd i'r rôl, sy'n eu galluogi i gynorthwyo a herio staff addysgu i wella

perfformiad.  Mae cyfarwyddwyr a dirprwy gyfarwyddwyr/cyfarwyddwyr cynorthwyol wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant i wella eu medrau hyfforddi a mentora.  Mae hyn wedi gwella eu medrau a chyfoethogi eu dealltwriaeth o sut i helpu staff i wella eu haddysgu.

Mae’r coleg yn buddsoddi’n sylweddol mewn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer ei staff addysgu.  Mae wedi creu cyfarwyddiaeth addysgu, dysgu a datblygiad proffesiynol sy’n gyfrifol am gyflwyno rhaglen DPP ar gyfer staff ar bob lefel yn y coleg.  Hefyd, gall staff fanteisio ar hyfforddiant pwnc-penodol.  At ei gilydd, roedd y staff y siaradwyd â nhw yn ystod yr ymweliad yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan y coleg ac roeddent o’r farn fod eu haddysgu wedi gwella yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf o ganlyniad i’r gweithgareddau DPP yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt.

Mae prosesau hunanasesu a gwella ansawdd y coleg yn nodi cyrsiau a meysydd dysgu sy’n perfformio’n dda a’r rhai y mae angen eu gwella.  O ganlyniad, mae rheolwyr cwricwlwm (cyfarwyddwyr a dirprwy gyfarwyddwyr/cyfarwyddwyr cynorthwyol) yn nodi ac yn lledaenu arfer dda ac yn rhoi cynlluniau ar waith i helpu timau i wella eu haddysgu.

Mae’r coleg wedi cytuno ar broses newydd ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu.  Ar hyn o bryd, mae’n hyfforddi staff i gynnal arsylwadau drwy fireinio eu medrau, dealltwriaeth ac ymddygiad wrth arfarnu ansawdd addysgu.

Yn gynyddol, mae staff addysgu yn defnyddio TGCh a chyfryngau cymdeithasol mewn modd arloesol i gynnal asesiadau a darparu adborth defnyddiol i ddysgwyr ar sut i wella eu medrau.  Mae hyn yn golygu bod dysgwyr yn cael adborth ar eu gwaith yn gyflym.  Gwna myfyrwyr ddefnydd da o’r cyfleusterau hyn i gyflwyno eu gwaith i’w asesu ac i gael cyngor ar eu cynnydd, ac arfarniad beirniadol ohono.

## 4 Cwricwlwm

Mae’r coleg yn gwneud defnydd priodol o wybodaeth am y farchnad lafur i gynllunio ei gwricwlwm.  Mae’n datblygu’r cwricwlwm ar sail ranbarthol, gan ystyried gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa ar draws ardal estynedig, gan gynnwys ardaloedd cyfagos yn Lloegr.  Mae’r system cynllunio’r cwricwlwm yn galluogi rheolwyr i alinio darpariaeth ar draws y campysau i sicrhau y gall dysgwyr fanteisio’n gyfartal ar lwybrau cwricwlaidd a chyrsiau.  Hefyd, mae cynllunio’r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr.  O ganlyniad, gall y coleg gynnig cwricwlwm ehangach.  Mae uno’r ddau sefydliad wedi galluogi dysgwyr i fanteisio ar fwy o gyrsiau ar lefel sy’n briodol iddynt, a symud ymlaen i lefelau dysgu uwch yn eu meysydd pwnc dewisol.

Mae uwch arweinwyr yn annog yr holl staff i ysgwyddo cyfrifoldeb am ddatblygu’r cwricwlwm.  Mae hyn yn grymuso staff addysgu i gymryd rôl arweiniol mewn creu cyfleoedd i ddysgwyr a datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau yn eu sectorau.  O ganlyniad, gall staff geisio a sefydlu lleoliadau gwaith, creu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau mewn ffyrdd ymarferol, a threfnu gweithgareddau allgyrsiol fel cymryd rhan mewn cystadlaethau medrau neu weithgareddau menter.  Mae staff hefyd yn gyfrifol am ddatblygu’r cwricwlwm gan ddefnyddio TGCh ac ystod o

gyfryngau cymdeithasol.  Maent yn defnyddio'r adnoddau hyn yn dda iawn i gyhoeddi deunyddiau'r cwricwlwm a thasgau, creu adnoddau ar-lein a gosod aseiniadau.

Mae'r coleg wedi adolygu ac alinio'r gofynion mynediad ar gyfer pob cwrs; mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar sicrhau bod dysgwyr yn ymrestru ar gyrsiau ar y lefel briodol.

Mae'r coleg yn cynnwys cyflogwyr yn dda mewn llunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae'n cydweithio'n dda â rhwydweithiau a chymdeithasau proffesiynol y sector i drefnu lleoliadau gwaith, sicrhau offer ac adnoddau o safon y diwydiant, dod â hyfforddwyr a siaradwyr allanol i mewn sydd â phrofiad perthnasol, a helpu dysgwyr i wneud cynnydd yn eu gyrfaoedd.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae llywodraethwyr ac uwch reolwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd i hyrwyddo cenhadaeth a gweledigaeth y coleg newydd i'r holl staff a'r gymuned.  Maent wedi cyflawni proffil cyhoeddus cryf ar gyfer y coleg fel un endid newydd mewn cyfnod byr iawn.  Maent wedi ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid i lywio cynllunio coleg newydd i fodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned.  Maent yn rhagweithiol o ran sicrhau y caiff cyfeiriad strategol y coleg ei ddeall mewn fforymau strategol rhanbarthol.  Maent hefyd yn cynllunio'n dda iawn ag awdurdodau lleol ac ysgolion yn y rhanbarth i ad-drefnu dysgu ôl-16 ac i sefydlu partneriaethau economaidd newydd.

Mae'r coleg wedi ymestyn ei uwch dîm rheoli i gynnwys cyfarwyddwyr ag arbenigeddau cwricwlaidd.  Mae hyn yn golygu y gall y cyfarwyddwyr hyn lywio eu meysydd cwricwlwm â mwy o hyder a hyrwyddo gweledigaeth a chenhadaeth y coleg ar draws pob lefel o'r sefydliad, yn ogystal â darparu arweinyddiaeth gref i'r staff addysgu.  Maent yn modelu ymddygiad a safonau disgwyliedig y coleg yn dda.

Mae'r corff llywodraethol yn craffu ar safonau, ansawdd darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn drylwyr.  Mae'r llywodraethwyr yn cydweithio â'r tîm ansawdd i adolygu deilliannau i ddysgwyr ar draws pob maes sector pwnc, i ddarparu adroddiadau i'r corff llywodraethol a nodi cynlluniau ar gyfer gwella.  Mae llywodraethwyr unigol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am fonitro gwaith meysydd pwnc sectorau penodol.

## 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)

Mae'r coleg wedi sefydlu proses fanwl ar gyfer hunanasesu ar lefel meysydd sector pwnc, gan gynnwys dilysu data.  Mae hyn yn cynnwys timau staff, rheolwyr a llywodraethwyr yn arfarnu perfformiad yn weithredol ac yn cytuno ar gamau gweithredu ar gyfer gwella.  Gwna'r tîm ansawdd ddefnydd effeithiol o ddata perfformiad i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i gyfarwyddwyr a thimau cyrsiau i nodi cyrsiau sy'n perfformio'n dda neu y mae angen eu gwella.  O ganlyniad, gall timau cyrsiau nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn well, a rhoi camau gweithredu priodol ar waith ar gyfer gwella.  Mae gan uwch reolwyr ddealltwriaeth fanwl o'r ffactorau sy'n effeithio ar gyfraddau llwyddo dysgwyr, ac mae ganddynt gynlluniau ar waith i sicrhau gwelliannau.

Gwna'r coleg ddefnydd priodol o'i gynllun gwella ansawdd i nodi camau gweithredu ar gyfer gwella, ac mae'r cynllun yn nodi'n glir y staff sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â phob cam gweithredu. Mae'r uwch dîm rheoli yn monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn ac yn adrodd i'r corff llywodraethol ar y deilliannau.

Mae gan y corff llywodraethol weithdrefn hunanasesu ddefnyddiol hefyd i wella ei berfformiad ei hun. Mae'r cadeirydd yn dwyn llywodraethwyr i gyfrif am eu cyfraniad yn ystod y flwyddyn ac yn cynnal adolygiadau o lywodraethwyr unigol. Mae'r corff llywodraethol yn dirprwyo cyfrifoldeb i lywodraethwyr unigol am ymgymryd â rolau penodol.

Mae'r coleg yn cynnwys dysgwyr mewn gwella ansawdd eu profiad dysgu. Mae ganddo strwythur ffurfiol o gynrychiolwyr dosbarthiadau/cyrsiau, cynrychiolwyr campws, ac arweinwyr myfyrwyr. Mae arweinwyr myfyrwyr yn ethol dau lywydd myfyrwyr yn ffurfiol, sy'n eistedd ar y corff llywodraethol. Mae'r strwythur hwn yn effeithiol o ran galluogi myfyrwyr i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r corff llywodraethol a dylanwadu ar benderfyniadau. Mae'r strwythur hefyd yn effeithiol o ran holi barn dysgwyr ar ansawdd addysgu a dysgu. Mae'r tîm ansawdd yn defnyddio adborth gan ddysgwyr yn dda wrth adolygu cyrsiau a chynllunio gwelliannau. Mae'r coleg yn darparu hyfforddiant defnyddiol i gynrychiolwyr dosbarthiadau a chyrsiau er mwyn sicrhau bod ganddynt y medrau angenrheidiol i ymgymryd â'u rolau'n effeithiol.

## 7 Crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad ar Goleg Garddwriaeth Cymru, Coleg Llysfasi, Coleg Iâl a Choleg Glannau Dyfrdwy

Mae'r coleg wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o'r cynnydd a wnaed tuag at weithredu argymhellion yr arolygiad o Goleg Garddwriaeth Cymru yn 2005, Coleg Glannau Dyfrdwy yn 2007, Coleg Llysfasi yn 2009, a Choleg Iâl yn 2010. Mae'r coleg wedi dwyn unrhyw faterion perthnasol a nodwyd ganddo ymlaen yn y cynllun gwella ansawdd cychwynnol ar gyfer Coleg Cambria, fel rhan o weithdrefnau adolygu ansawdd y coleg.

## 8 Arall

Mae gan y coleg gysylltiadau eang â'r rhwydweithiau 14-19 ym mhob awdurdod lleol yn yr ardal. Gall dysgwyr 14-16 oed fanteisio ar ystod eang o gyrsiau a sesiynau blasu cyrsiau, gan gynnwys cyrsiau cyfoethogi. Mae llwybrau dilyniant clir ar gyfer pob cwrs sy'n llywio cynllunio gyrfa ac yn helpu i godi dyheadau disgyblion.

Bu ymyrraeth a chymorth i'r dysgwyr cyswllt ag ysgolion yn ffactor allweddol o ran sicrhau bod disgyblion yn cadw at eu cyrsiau ac yn cyflawni eu deilliannau. Mae'r cymorth hwn wedi arwain at welliant sylweddol i'r deilliannau a adroddwyd yn yr arolwg ar ganfyddiad myfyrwyr o gyrsiau.

Mae llawer o'r dysgwyr 14-16 oed sy'n dilyn cyrsiau cydweithredol yn symud ymlaen i ddarpariaeth chweched dosbarth yn eu hysgolion neu'n trosglwyddo i gyrsiau yng Ngholeg Cambria.

Mae’r coleg yn arwain ‘rhaglen ad-drefnu ysgolion’ Cyngor Sir y Fflint ar y cyd â’r awdurdod a sawl ysgol leol i ad-drefnu dysgu chweched dosbarth yn yr ardal. Bydd dysgwyr ôl-16 yn gallu manteisio ar ganolfan ddysgu i gyfoethogi eu dewisiadau cwricwlwm a’u profiadau dysgu. Mae cynlluniau ar gyfer hyn yn mynd rhagddo’n dda.

**Llais y dysgwr**

Gwna’r tîm ansawdd ddefnydd da iawn o arolwg llais y dysgwr i drafod cryfderau a meysydd i’w gwella gyda chynrychiolwyr dosbarthiadau a chyrsiau.

Cwblhaodd 4,684 o ddysgwyr yng Ngholeg Cambria arolwg llais y dysgwr. O’r rhain, roedd 3,437 ohonynt yn ddysgwyr amser llawn.

Mae 33% o ddysgwyr amser llawn o’r farn bod eu coleg yn dda iawn, yn gyffredinol. Mae hyn ddau bwynt canran yn uwch na chyfartaledd y sector. Dywed 85% o ddysgwyr bod eu cwrs yn well na’r hyn roeddent yn ei ddisgwyl, neu’n cyfateb i’r hyn roeddent yn ei ddisgwyl, ac mae hyn un pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y sector.

At ei gilydd, mae ymatebion dysgwyr yn erbyn y pedair thema allweddol ychydig yn is na chyfartaleddau’r sector. Mae lleiafrif o’r dysgwyr o’r farn bod perfformiad y coleg yn erbyn y themâu allweddol yn dda iawn, ac mae lleiafrif arall o’r farn bod perfformiad yn dda. Mae’r ymatebion yn dangos bod addysgu a hyfforddi yn denu’r sgôr isaf, sef tri phwynt canran yn is na chyfartaledd y sector.

Dywed 47% o ddysgwyr bod y coleg yn ‘dda iawn’ am sicrhau eu bod yn teimlo’n ddiogel, a dywed 39% arall bod hyn yn ‘dda’. Nid oes yr un dysgwr wedi dweud bod y coleg yn wael neu’n wael iawn yn erbyn y mesur hwn.

Daw’r sgorau uwch yn holiadur llais y dysgwr gan ddysgwyr mewn peirianneg a gweithgynhyrchu, gwyddoniaeth a mathemateg, a’r gwyddorau cymdeithasol. Addysg a hyfforddiant sydd â’r sgorau isaf, er bod yr adran hon yn un gymharol fach yn y coleg.

Dywed y mwyafrif o ddysgwyr y cawsant gynnig y cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog wrth ddechrau ar eu cyrsiau.

**Yr iaith Gymraeg**

Mae’r coleg yn cydnabod bod y cyd-destun y mae’n gweithio ynddo yn cyflwyno heriau o ran cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar draws pob un o’i safleoedd. Caiff dysgu Cymraeg ei gynnig fel rhan o raglenni cyfrwng Saesneg amser llawn yn unol â chynllun iaith Gymraeg y coleg. Mae’r cynllun yn gosod targedau, yn dechrau ym mis Medi 2014, i gynyddu’r math hwn o ddarpariaeth 10% o un flwyddyn i’r llall. Fel rhan o’r broses cynllunio’r cwricwlwm, mae’r coleg yn datblygu cynllun datblygu cwricwlwm dwyieithog ar gyfer 2014 i 2017. Caiff dysgwyr sydd wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg cyn 16 oed gyfle i ddilyn agweddau ar eu rhaglen coleg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae tua 2,000 o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf rhan o’u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Argymhellion**

Er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol mewn modd amserol, dylai'r sefydliad wneud y canlynol.

A1 Gweithredu cynllun datblygu cwricwlwm dwyieithog a chyfrwng Cymraeg
A2 Sicrhau y gall pob dysgwr fanteisio ar yr ystod lawn o ddewisiadau cymorth ar bob safle

**Camau nesaf**

Bydd Gill Sims a Liam Kealy AEM yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol drwy eu rôl cyswllt â'r sefydliad.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol